

Annwyl Riant/Ofalwr

Mae copi o'r Adroddiad Blynyddol i Rieni gan y Corff Llywodraethol ar y wefan, ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith allweddol a gyflawnwyd gan yr ysgol a'r Corff Llywodraethol dros y flwyddyn academaidd flaenorol ac yn amlygu gwybodaeth allweddol o'r cyfnod, blaenoriaethau gwella'r ysgol a gwybodaeth cyllid a strwythur yr ysgol. Cysylltwch â swyddfa'r ysgol ar admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru os hoffech gopi papur o'r adroddiad, fydd yn cael ei anfon adref gyda'ch plentyn.

Cafodd y gofyniad i gynnal cyfarfod blynyddol i rieni ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac fe'i disodlwyd gan gyfle i rieni ofyn am hyd at dri chyfarfod mewn unrhyw flwyddyn ysgol lle byddai pob rhiant/gofalwr yn cael eu gwahodd i gwrdd â'r Corff Llywodraethol, i drafod materion a allai fod o bryder iddynt. Os yw rhieni'n dymuno defnyddio eu hawliau o dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, mae'r manylion ar sut i wneud hynny wedi'u nodi isod.

Os yw rhieni'n dymuno defnyddio eu hawliau o dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, mae angen bodloni pedwar amod o dan ddeddfwriaeth:

1. Rhaid i'r ddeiseb i alw am gyfarfod gynnwys llofnodion y nifer ofynnol o rieni disgyblion cofrestredig
2. Rhaid i'r cyfarfod fod at ddiben trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol
3. Ni chynhelir mwy na thri chyfarfod yn y flwyddyn ysgol y derbynnir y ddeiseb
4. Rhaid bod digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i ganiatáu cyfarfod cyn diwedd cyfnod o 25 diwrnod.

Gellir cael rhagor o gyngor ar sut y gall rhieni/gofalwyr wneud cais am gyfarfod gyda'n Corff Llywodraethol drwy gysylltu â Chlerc y Llywodraethwyr yn

simonedelaney@schoolgovernancesolutions.com.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol i chi a diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.

Cofion cynnes

Nik Dart
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

Dear Parent/Carer

Please find a copy of the Annual Report to Parents from the Governing Body on the website, for the academic year 2021-2022. The report outlines key work undertaken by the school and Governing Body over the previous academic year and highlights key information from the period, school improvement priorities and finance and school structure information. Please contact the school office on admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru if you would appreciate a paper copy of the report, which will be sent home with your child.

The requirement to hold an annual meeting for parents was removed by The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and it was replaced with the opportunity for parents to request up to three meetings in any school year where all parents/carers would be invited to meet with the Governing Body, to discuss matters that may be of concern to them. If parents wish to exercise their rights under the Act to hold a meeting, the details of how to do so are set out below.

If parents wish to use their rights under the Act to hold a meeting, four conditions need to be satisfied under legislation:

1. The petition to call for the meeting must contain the signatures of the required minimum number of parents of registered pupils
2. The meeting must be for the purpose of discussing matters relating to the school
3. There will be no more than three meetings held in the school year in which the petition is received
4. There must be sufficient school days left in the school year to allow a meeting to be held before the end of a 25-day period

Further advice on how parents/carers can request a meeting with our Governing Body can be sourced by contacting the Clerk to Governors at

simonedelaney@schoolgovernancesolutions.com.

We hope that you find the report useful and thank you for your ongoing support.

Kind Regards

Nik Dart
Chair of Governors
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr